Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen ‘dim’ wythnosol gan blaid wleidyddol gofrestredig (PF)

Rhaid i drysorydd y blaid lofnodi a chyflwyno’r ffurflen hon.

Gallwch gwblhau a chyflwyno eich ffurflen drwy ddefnyddio CPE Ar-lein, ein system gronfa ddata ar-lein. Mae hyn yn golygu y gallwch adolygu eich ffurflen ar unrhyw adeg cyn ei chyflwyno ac mae cymorth ar gael os byddwch ei angen. Byddwch angen cyfrif defnyddiwr i wneud hyn.

Fel arall, gallwch lenwi eich ffurflen wythnosol drwy ddefnyddio’r ffurflen hon a’i chyflwyno drwy e-bost neu’r post.

I bwy mae’r ffurflen hon:

Pleidiau gwleidyddol sydd wedi’u cofrestru ym Mhrydain Fawr:

- sy’n ymladd etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2024/25; neu

- sydd ddim yn ymladd etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2024/25 ac sydd heb gyflwyno datganiad rhyddhad

Rhaid i chi lenwi’r ffurflen hon os nad ydych wedi derbyn unrhyw roddion neu ymrwymo i unrhyw drafodion a reoleiddir yn y cyfnod adrodd perthnasol. Os ydych wedi cael unrhyw roddion gyda gwerth dros £11,180, neu wedi ymrwymo i drafodyn a reoleiddir gyda gwerth dros £11,180, mae’n rhaid i chi gwblhau adroddiad rhoddion.

Mae ffurflen ar wahân i Ogledd Iwerddon. Ceir datganiad nad yw eich plaid yn ymladd etholiad cyffredinol Senedd y DU yma.

Byddwch yn gwneud datganiad pan fyddwch yn llofnodi’r ffurflen hon. Mae’n drosedd gwneud datganiad ffug gan wybod hynny neu’n ddi hid.

Beth yw rhodd?

Rhodd yw arian, nwyddau neu wasanaethau a roddir i blaid heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol, gyda gwerth o dros £500. Rhaid adrodd ynglŷn â rhoddion dros £11,180.

Beth yw trafodion a reoleiddir adroddadwy?

Trafodion a reoleiddir yw benthyciadau, cyfleusterau credyd neu drafodion cysylltiedig gyda gwerth dros £500. Mae'n rhaid adrodd trafodion a reoleiddir gyda gwerth dros £11,180.

Benthyciad

Unrhyw fenthyciad sydd werth mwy na £11,180 a wneir gan bencadlys y blaid lle mae pob cyfranogwr yn fenthycwyr a ganiateir.

Cyfleuster credyd

Unrhyw gyfleuster credyd sydd werth mwy na £11,180, fel gorddrafft banc neu gerdyn credyd.

Trafodion cysylltiedig

Sicrwydd neu warant am rwymedigaethau'r blaid i rywun arall gyda gwerth o fwy na £11,180.

Amserlen adrodd wythnosol

Mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen wythnosol o roddion a dderbyniwyd a thrafodion a reoleiddir unwaith y diddymir y Senedd. Os nad ydych wedi derbyn unrhyw roddion nac wedi ymrwymo i unrhyw drafodion a reoleiddir yn y cyfnod adrodd perthnasol, rhaid i chi lenwi ffurflen 'dim'.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen o fewn 7 diwrnod o ddiwedd yr wythnos berthnasol.

Byddwn yn diweddaru ein canllawiau gyda'r cyfnodau adrodd a'r dyddiadau cau ar gyfer adrodd unwaith y cyhoeddir yr etholiad

Y Comisiwn Etholiadol

Nodiadau esboniadol

Adran 1 Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw, cyfeirnod y blaid a dyddiadau'r cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef.

Adran 2 Datganiad ffurflen 'dim'

Darllenwch y datganiad yn ofalus a chwblhewch y cyfnod adrodd.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid.

Adran 3 Datganiad a Llofnodion

Mae'n rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan y person a gofrestrwyd fel trysorydd y blaid.

Cwblhau ac anfon y ffurflen atom

Mae'n rhaid i drysorydd y blaid anfon y ffurflen wythnosol atom erbyn y dyddiad cau perthnasol.

Gallech gael eich cosbi os nad ydych yn cyflwyno eich adroddiadau ar amser.

Cyflwyno'r ffurflenni ar-lein

Rydym yn eich annog i gwblhau eich ffurflenni a datganiadau drwy ddefnyddio CPE Ar-lein, ein system gronfa ddata ar-lein. Ceir canllawiau yma ar sut i sefydlu cyfrif CPE Ar-lein.

Cyflwyno eich ffurflen drwy e-bost neu'r post

Os nad ydych yn cyflwyno eich ffurflen ar-lein, gallwch ei hanfon atom drwy e-bost i pef@electoralcommission.org.uk neu drwy'r post i:

Compliance and Transparency Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Petaech yn cael unrhyw broblemau wrth gyflwyno eich ffurflen, gallwch gysylltu â ni dros y ffôn ar 0333 103 1929 neu anfon e-bost i pef@electoralcommission.org.uk